## 2. Cyraeddiadau

- Mae'r Brifysgol wedi darparu hyfforddiant ar y Safonau Iaith i'w holl staff yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwnaed hyn trwy gyflwyniadau llafar ar ddechrau blwyddyn academaidd, trwy gyrsiau anwytho sefydliadol ar gyfer staff newydd a thrwy hyfforddiant wedi ei deilwrio ar gyfer arweinwyr Unedau Proffesiynol ar draws campysau'r Brifysgol yng Nghymru.

- Sefydlwyd Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol yn 2017 gyda'r bwriad o gefnogi a chynghori staff yng nghyd-destun y Gymraeg ar draws y sefydliad. Penodwyd Cydlynydd Tîm ar gyfer Rhagoriaith yn Rhagfyr 2018 a rhan bwysig o'i dyletswyddau yw monitro cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau. Mae'r cyfnod adrodd yn cynnwys pedwar mis pan nad oedd swydd y Cydlynydd yn bodoli.

- Yn sgil ei phenodiad, mae Cydlynydd Tîm Rhagoriaith wedi:

  - Cyhoeddi Canllawiau 'Defnyddio'r Gymraeg' ar gyfer staff y Brifysgol gan gynnwys
    - Canllaw 'Pam defnyddio'r Gymraeg'
    - Canllaw 'Ar y ffôn'
    - Canllaw 'Gohebu'
    - Canllaw 'Trefnu a chynnal cyfarfodydd'
    - Canllaw 'Dylunio, Cyhoeddi a Gosod Arwyddion'

  - Cynnal sesiynau anffurfiol ar bob campws i drafod y Safonau gan wahodd holl staff y Brifysgol i'w mynychu

  - Darparu hyfforddiant penodol i un tîm o fewn yr Adran Gyllid ynghylch y Safonau Iaith

  - Sefydlu cyfeiriad e-bost ar gyfer staff y Brifysgol sy'n dymuno cyngor ynghylch y Gymraeg

  - Cyhoeddi Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

